# AROLWG BUSNESAU YNG NGHEFN GWLAD

Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar ganlyniadau arolwg o fusnesau yng Nghymru wledig gan Arsyllfa Wledig Cymru yn ystod 2010.

### CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Roedd effeithiau andwyol y dirwasgiad yn dominyddu sylwadau perchnogion busnes. O gymharu ag arolwg 2007:
  - Roedd llai o fusnesau wedi ehangu (34%)
  - Roedd mwy wedi contractio gwaith (25%)
  - Roedd llai wedi cynyddu trosiant (36%)
  - Roedd llai wedi cynyddu elw (26%)
  - Roedd mwy wedi nodi gostyngiad mewn elw (41%)
  - roedd 48% wedi nodi anawsterau wrth sicrhau buddsoddiad.
  - roedd 34% wedi gweld lleihad yn y galw amdano.

- Roedd 67% o'r 1,308 o fusnesau a gymerodd ran yn yr arolwg yn gyflogwyr. Roedd y mwyafrif o'r gweithwyr yn bobl leol.

- Roedd arwyddion o economi sgiliau isel, cyflog isel:
  - Roedd y defnydd o rwydweithiau recriwtio lleol, anffurfiol, wedi cynyddu
  - Diffyg tybiedig o ymgeiswyr medrus i swyddi
  - Roedd mwy o bobl ar gael ar gyfer gwaith
  - Roedd llai o berchnogion busnes yn cynnig neu'n rhoi gwerth ar hyfforddiant busnes
  - Prin oedd y busnesau (33%) a oedd yn meddu ar gynllun busnes
  - Tuedd tuag at blwyfoldeb

- Roedd y manteision o Gymru wledig i fusnesau yn cynnwys golygfeydd hardd, ansawdd bywyd, cymunedau lleol cryf, marchnadoedd arbenigol a chostau rhedeg is.

- Ymhlith y canfyddiadau o fygythiadau i fusnesau roedd archfarchnadoedd, prinder gweithlu medrus, llawn cymhelliant, a sylfaen cwsmeriaid sy'n heneiddio.

- Roedd 81% yn ailgylchu cynnyrch gwastraff (61% yn 2007).

- Roedd gan fusnesau bryderon am:
  - reoleiddio gormodol
  - costau cynyddol, yn enwedig costau egni
  - costau i'r busnes sy'n ymwneud â'r amgylchedd


**Yr Ymchwil**
Gan dîm ym Mhrifysgol Caerdydd ar ran Arsyllfa Wledig Cymru



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Roedd 9% o'r busnesau a gymerodd ran yn yr arolwg yn ymwybodol o 'Adnewyddu’r Economi: cyfeiriad newydd’.

- Roedd cysylltiadau’r rhyngrwyd wedi cynyddu i 85%.

- Roedd cysylltiadau band eang wedi cynyddu i 76%.

## CEFNDIR

Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru 2010 oedd y trydydd mewn cyfres, yn dilyn arolygon 2004 a 2007. Cafodd ei ddylunio fel rhan annatod o raglen waith Arsyllfa Wledig Cymru, a'r sail resymegol sylfaenol oedd y byddai'r arolwg yn ategu ac yn adeiladu ar waith a gyflawnwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru; gan dynnu ar arolygon 2004 a 2007 byddai'n darparu data hydredol; a byddai'n darparu cronfa ddata ar gyfer gwaith Arsyllfa Wledig Cymru yn y dyfodol.

Amcanion eang yr arolwg oedd archwilio cyflwr gweithgareddau busnesau gwledig (heblaw ffermydd) yng Nghymru. Yn fwy penodol roedd yr arolwg wedi'i anelu at archwilio, mesur a darparu data ansoddol ar agweddau perchnogion busnesau gwledig yng Nghymru at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol. Yn ogystal â hyn, nod yr arolwg oedd canfod pa newidiadau a oedd wedi effeithio ar fusnesau yng Nghymru wledig.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, y diffiniad o'r hyn yw Cymru wledig yw'r diffiniad a geir yn Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar Gynlluniau Datblygu Gwledig Drafft Cymru ar gyfer 2007 – 2013.

## METHODOLEG

Yn fethodolegol, roedd arolygon 2004, 2007 a 2010 yn debyg, roeddent yn cynnwys holiaduron a llythyron eglurhaol, a oedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Nodwedd newydd yn 2010 oedd bod busnesau yn cael eu hannog i gwblhau holiaduron ar-lein ar wefan Arsyllfa Wledig Cymru.

Roedd yr holiadur wedi cael ei fireinio a'i addasu yn ystod y tri arolwg. Fodd bynnag, prin oedd y gwahaniaethau rhwng fersiynau 2007 a 2010.

### Yr Holiadur

Roedd yr holiadur ar gyfer arolwg 2010 ond yn cynnwys mân amrywiadau i fersiwn 2007. Roedd naw adran yn yr holiadur terfynol:

Adran 1 – Proffil o'r Busnes a'r Perchennog

Adran 2 – Ynglyn â'ch Gweithwyr

Adran 3 – Recriwtio a Hyfforddi eich Gweithwyr

Adran 4 – Gweithrediad a Strategaeth eich Busnes

Adran 5 – Cymorth Busnes

Adran 6 – Newidiadau mewn Gweithgareddau Busnes

Adran 7 – Eich Busnes a'r Amgylchedd

Adran 8 – Gwybodaeth Ariannol

Adran 9 – Gwybodaeth Ychwanegol

Daeth cyfanswm o 1,308 o ymatebion i law, a oedd yn cynnwys 138 ar-lein. Roedd y cyfanswm hwn yn rhagori ar y targed o 1,000 ac roedd yn uwch nag arolygon 2004 a 2007.

## CANFYDDIADAU

### Cyflwr gweithgareddau busnes gwledig yng Nghymru

Roedd y prif fathau o fusnesau yn parhau i gynnwys Cyfanwerthu a Manwerthu (25%), Gwestai a Bwytai (14%) ac Adeiladu (12%). Cynyddodd gweithgynhyrchu o 9% yn 2007 i 11%. O'r cyfanswm, roedd 67% wedi'u cofrestru ar gyfer TAW.

Er bod dal mwy o berchnogion busnes gwrywaidd, roedd cyfran y perchnogion benywaidd wedi cynyddu saith pwynt canran ers 2007 i 28%. Parhaodd y duedd o berchnogion busnes sy'n heneiddio yng Nghymru wledig, a welwyd yn arolygon 2004 a 2007.

Yn yr un modd, nodwyd y duedd i danbrisio hyfforddiant busnes ffurfiol a chynllunio. Yn 2010, roedd 25% o berchnogion busnes wedi cael hyfforddiant busnes ffurfiol; roedd 41% yn ystyried ei fod yn bwysig; ac roedd 20% o'r farn nad oedd yn bwysig. At hynny, dim ond 33% o'r busnesau oedd yn meddu ar gynllun busnes ysgrifenedig, ac roedd gan 17% gynllun marchnata ysgrifenedig.

O ran gweithwyr, roedd 67% o'r busnesau a arolygwyd yn gyflogwyr: roedd 878 o'r 1308 o fusnesau yn cyflogi 13,350 o weithwyr. Yn 2010, roedd 13 o fusnesau'n cyflogi cyfanswm o 30 o weithwyr ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr, o gymharu â 74 o weithwyr a gyflogwyd gan 17 o fusnesau yn 2007. Roedd gwaith llawn amser yn parhau i gael ei ddominyddu gan ddynion, gyda dwywaith cymaint o weithwyr gwrywaidd llawn amser o'u cymharu â merched, ond roedd bron tair gwaith yn fwy o weithwyr rhan amser benywaidd na gwrywaidd.

Roedd tueddiad gweladwy tuag at blwyfoldeb i fusnesau gwledig yn nhermau gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr. Cafodd dwy ran o dair o'r

gweithlu eu recriwtio o fewn deng milltir i'r busnes a oedd yn eu cyflogi a gwnaeth 39% o'r busnesau a arolygwyd recriwtio eu gweithlu cyfan o fewn radiws o ddeng milltir. Yn yr un modd, roedd mwy o gwsmeriaid a chyflenwyr yn cael eu denu o ardaloedd lleol nag yn 2007: roedd 18% o'r busnesau a arolygwyd yn 2010 yn denu eu holl sylfaen cwsmeriaid o fewn cylch o hyd at 20 milltir o'i gymharu ag 11% yn 2007, ac roedd gan 14% o fusnesau a arolygwyd yn 2010 eu holl ystod o gyflenwyr o fewn cylch o 20 milltir o'i gymharu â 6% yn 2007.

## Agweddau a chanfyddiadau perchnogion busnes mewn perthynas ag amgylchedd busnes Cymru wledig

Roedd y pryderon a fynegwyd gan fusnesau yn arolwg 2010 yn canolbwyntio ar berthynas â Llywodraeth Cymru a'r llywodraeth leol. Ystyriwyd nad oedd llywodraeth genedlaethol a lleol yn cynnig cymorth i fusnes a dadleuwyd bod gormod o reoliadau a gormod o ddeddfwriaethau. Roedd materion cynhennus yn cynnwys costau parcio drutach; ardrethi busnes mwy; a chostau cynyddol tanwydd ac ynni. Roedd rhai busnesau yn ystyried bod y gost i lywodraeth a busnesau o weithredu deddfwriaeth iaith Gymraeg hefyd yn ormodol ac yn ddiangen.

Ystyriwyd bod methiant i hyrwyddo ardaloedd gwledig a bod diffyg buddsoddiad yng Nghymru wledig. Dadleuwyd bod Llywodraeth Cymru'n rhoi gormod o bwyslais ar fusnesau mawr ac nad oedd yn cynnal BBaChau yng Nghymru wledig yn ddigonol. Yn ogystal, roedd y pryderon parhaus ynghylch busnesau mawr a busnesau rhyngwladol yn treiddio'n fwyfwy i'r Gymru wledig.

O ran cymorth busnes, o'i gymharu â 2007 roedd llai o fusnesau yng Nghymru wledig yn gweld y gwasanaethau cefnogi a chyngor yn foddhaol yn 2010. Roedd llai o fusnesau'n gwneud defnydd o'r gwasanaethau hyn, er bod ychydig yn fwy yn cysylltu â Llywodraeth Cymru.

Roedd busnesau'n edrych yn negyddol ar asiantaethau recriwtio ffurfiol ac yn mynegi pryderon ynghylch ansawdd gweithwyr posibl a awgrymir ganddynt. Hefyd, nododd data'r arolwg fod y defnydd o rwydweithiau recriwtio anffurfiol yn cynyddu dros amser. Ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o anawsterau o ran recriwtio staff medrus; y nifer cynyddol o bobl sy'n chwilio am waith; a chynnydd ym mhlwyfoldeb busnesau gwledig, mae'n rhaid bod pryderon bod gan yr economi sgiliau isel, cyflogau isel a nodwyd yn gynharach yng ngwaith Arsyllfa Wledig Cymru y potensial i barhau yng Nghymru wledig.

Roedd cyfrannau sylweddol o ymatebwyr yr arolwg o'r farn nad oedd polisïau Llywodraeth Cymru'n helpu i greu swyddi; i greu swyddi ansawdd uwch; i ysgogi twf economaidd; i adnewyddu cymunedau; i wella hyfforddiant sgiliau; neu i wella cymorth busnes. Ar draws yr arolwg, roedd 21% wedi elwa'n uniongyrchol o fentrau ariannol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd cyfran gymharol fach o 9% o fusnesau a arolygwyd yn ymwybodol o 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'.

*Band eang a'r Rhyngrwyd*

Roedd y defnydd o Fand eang a'r Rhyngrwyd wedi cynyddu: roedd 85% o fusnesau wedi'u cysylltu â'r Rhyngrwyd; roedd gan 84% fynediad posibl at Fand eang; ac roedd gan 76% o fusnesau a arolygwyd Fand eang. Fodd bynnag, roedd rhai busnesau wedi cwyno bod rhai mathau o fusnes gwledig yn cael eu rhedeg o 'ystafelloedd ffrynt a garejys', a olygai nad oedd angen talu ardrethi busnes – mantais economaidd annheg. Roedd busnesau eraill, a ddibynnai ar fasnach leol, yn colli masnach i fusnesau sy'n seiliedig ar y rhyngrwyd o bellach i ffwrdd, fel cyflenwyr cenedlaethol a rhyngwladol.

*Perthynas â'r Amgylchedd*

Roedd tystiolaeth o fwy o ymwybyddiaeth o'r amgylchedd. Er enghraifft, yn 2010 roedd 81% o fusnesau'n ailgylchu o gymharu â 61% yn 2007. Hefyd, roedd cynnydd sylweddol o un ar ddeg pwynt canran yng nghyfran y busnesau sy'n defnyddio dyfeisiau ynni isel, sy'n cyd-fynd â'r sylw bod mwy o fusnesau'n nodi eu bod yn defnyddio llai o ynni, er gwaethaf y gaeafau oer ers arolwg 2007. Roedd cafeatau: arweiniodd crebachu busnes at lai o ddefnydd o ynni, tra bod ehangu busnes wedi arwain at ragor o ddefnydd o ynni. Yn ogystal, nododd rhai busnesau bryderon ynglyn â chostau ynni a'r costau i fusnesau o bryderu am yr amgylchedd.

O ran yr amgylchedd mwy cyffredinol yng Nghymru wledig, roedd perchnogion busnes o'r farn bod ansawdd bywyd; golygfeydd prydferth a thirwedd; ac ymdeimlad o berthyn i gymuned a rhwydweithiau agos yn fanteision i fusnes o ran perthynas cwsmeriaid a chyflenwyr a recriwtio gweithwyr. I'r gwrthwyneb, ystyriwyd bod ynysu cymharol lleoliadau gwledig hefyd yn anfantais i fusnes. Yn fwy penodol, dadleuwyd bod y costau cynyddol o fywyd gwledig, yn enwedig yn nhermau tanwydd, gwasanaethau gwael, a ffyrdd a thrafnidiaeth annigonol yn tueddu i waethygu'r problemau'n gysylltiedig â'r dirwasgiad.

**Y Dirwasgiad a'i effeithiau**

Mewn ymatebion ansoddol, awgrymodd busnesau fod gwahanol agweddau ar y dirwasgiad yn ailadroddus ac yn creu effaith luosi oedd yn andwyol i'w gweithgareddau. Roedd llai o bobl mewn gwaith; roedd llai o arian yn yr economi; ac roedd y farchnad tai'n is neu wedi 'chwalu'. Dywedwyd bod cwsmeriaid busnes ymddiddymu. Gan wynebu cyfraddau cynyddol TAW a chostau cynyddol tanwydd, cludiant ac ynni, toriadau mewn gwasanaethau a arweinir gan y llywodraeth, a rheolau mwy llym ar gredyd, roedd pobl yn fwy cynnil na chyn y dirwasgiad. Roedd cynnydd canfyddedig yn y graddau roedd cwmnïau rhyngwladol mwy o faint wedi treiddio i ardaloedd gwledig, a oedd yn chwilio am farchnadoedd a chyfleoedd busnes newydd er mwyn helpu i leihau effeithiau'r dirwasgiad ar eu busnesau eu hunain. Ac roedd y dirwasgiad yn cael effaith wael ar dwristiaeth a'i sectorau perthynol – sydd o bwys mawr i lawer o fusnesau yng Nghymru wledig.

O ganlyniad, dywedodd busnesau fod llai o gwsmeriaid yn dod atynt; llai o archebion; a llai o alw'n gyffredinol. At hynny, dadleuwyd bod busnesau mewn ardaloedd gwledig yn arbennig o agored i gost gynyddol TAW, tanwydd, trafnidiaeth ac ynni, a'r toriadau a arweinir gan y llywodraeth a nodwyd uchod. Roedd y banciau'n gyndyn o gynnig benthyciadau, gan arwain at 'wasgfa gredyd'.

Roedd busnesau'n dadlau bod yr amgylchiadau economaidd hyn, gyda'i gilydd, wedi arwain at lai o lif arian a llai o elw; gorfodaeth i beidio ag ehangu a recriwtio gweithwyr; newidiadau i arferion gwaith; a gorfodi rhai busnesau i gau.

Galluogodd dadansoddiad meintiol o ddata'r arolwg hefyd inni ddod i gasgliadau ynglyn ag effeithiau andwyol y dirwasgiad ar fusnesau yng Nghymru wledig. Er enghraifft, yn arolwg busnes 2007 Arsyllfa Wledig Cymru, nododd 24% o'r sampl 'brinder o ymgeiswyr ar gyfer gwaith' o'i gymharu â 43% yn 2010. Awgrymodd y data hwn fod y gronfa o bobl ddi-waith wedi cynyddu.

Roedd awgrymiadau bod tuedd yn gyffredinol i fusnes grebachu o'i gymharu â 2007. Ers 2007, bu cynnydd o un pwynt canran ar ddeg yng nghyfran y busnesau a oedd wedi crebachu a lleihad o un pwynt canran ar bymtheg mewn busnesau a oedd wedi ehangu. Yn 2010, dywedodd 41% o fusnesau i'w helw ostwng; gwelodd 26% gynnydd; roedd 33% wedi aros yr un peth; ac roedd 18% wedi gwneud colled neu wedi talu'r costau. (Ar gyfer 2007 y ffigurau oedd 27%, 42%, 31% a 15% yn y drefn honno).

Fodd bynnag, roedd ychydig o fusnesau wedi nodi buddion posibl o'r dirwasgiad. Roedd rhai o'r busnesau hyn wedi dweud eu bod, wrth ymateb i bwysau'r dirwasgiad, wedi mynd yn fwy effeithlon ac yn fwy proffidiol. Dywedodd eraill fod cystadleuwyr busnes wedi mynd i'r wal, gan adael cyfle iddynt.

**Sylwadau terfynol**

Mae'r adroddiad yn gwneud cymariaethau gydag adroddiad busnes Arsyllfa Wledig Cymru 2007, gan fod y cyfnod tair blynedd rhwng yr arolygon yn digwydd yng nghyfnod y dirwasgiad, ac mae tystiolaeth yr ymchwil yn awgrymu bod y dirwasgiad yn ffactor dominyddol ar gyfer busnes. Roedd y sylw hwn wedi cael ei gefnogi gan ddata ansoddol a data meintiol.

Yn fwy calonogol oedd perthynas busnesau â'r amgylchedd; cynnydd yn nefnydd y Rhyngrwyd; a mynediad gwell at Fand eang. Ymddengys y bu cynnydd yn arferion busnes sy'n sensitif i'r amgylchedd, er i fusnesau barhau i bwyntio at y costau gormodol tybiedig i fusnes. Ac er bod y Rhyngrwyd o fudd i rai busnesau, roedd gan eraill broblemau'n ymwneud â'r Rhyngrwyd. At hyn, roedd awgrymiadau bod y prosiect Band eang angen sylw agos o hyd.

Yn olaf, un thema a oedd yn gyffredin i dri arolwg busnes Arsyllfa Wledig Cymru oedd parhad ymddangosol economi sgiliau isel, cyflogau isel. Roedd tystiolaeth ymchwil a oedd yn dangos hyn yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol isel; diffyg tybiedig o ymgeiswyr medrus i swyddi; diffyg hyfforddiant busnes; anwybyddu defnyddioldeb cynlluniau busnes; tueddiad tuag at blwyfoldeb yn nhermau gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr; a ffafriaeth i ddefnyddio rhwydweithiau lleol, yn arbennig ar gyfer recriwtio. Gellid dadlau bod gan effeithiau'r dirwasgiad, yn enwedig y cynnydd ymddangosol mewn pobl yn chwilio am waith, y potensial i waethygu'r broblem dybiedig hon.

## Am fwy o wybodaeth

Caiff yr adroddiad llawn, Arolwg Busnesau Gwledig 2010 ei gyhoeddi gan Arsyllfa Wledig Cymru. Gellir ei lawrlwytho am ddim yn:

www.arsyllfawledigcymru.org.uk

www.arsyllfawledigcymru.org.uk

Mae fformatau eraill ar gael.

Ffôn: 029 208 74970 e-bost: ColemanJE1@cardiff.ac.uk